O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 681 (Cy.100)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau"). Mae'r Rheoliadau hynny yn darparu ar gyfer talu treuliau teithio i bersonau, ymhlith eraill, sydd ar incwm isel, a pheidio â chodi ffioedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar y personau hynny, drwy gyfeirio at derfynau ar eu hincwm a'u cyfalaf.

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a oes hawlogaeth gan y person hwnnw i beidio â thalu ffioedd GIG ac i gael taliad o dreuliau teithio GIG, cymhwysir fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987.

Mae rheoliad 3 yn newid yr addasiad i reoliad 45 o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987, er mwyn codi'r terfyn cyfalaf rhagnodedig i £22,500.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 681(Cy.100)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed *8 Mawrth 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *9 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *11 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 11 Ebrill 2011.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" (*"the 2007 Regulations"*) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (**2**).

Diwygio Rheoliadau

3.—(1) Diwygir Rheoliadau 2007 fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1480 (Cy.153). Mae diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yng ngholofn 2 o Dabl A yn Atodlen 1 (addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987), yn yr addasiad o reoliad 45 (capital limit), yn lle "£22,000" rhodder "£22,500".

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2011